Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Ann Davies	6. Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032	Mae'r Cynghorydd Davies yn rheoli meithrinfa i blant sy'n gweithredu strategaeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

### **3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 11 EBRILL 2022**

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2022 yn gofnod cywir.

### **4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

### **5. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

### **6. 2022-2032 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r fersiwn diwygiedig o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2023. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol y mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ei chynhyrchu.

Diben Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022-2032 yw manylu ar sut y cyflawnir canlyniadau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb, mewn modd a gynlluniwyd, i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, cyfrwng allweddol ar gyfer creu system gynllunio well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn fodd i Lywodraeth Cymru fonitro'r ymateb a'r cyfraniad at weithredu amcanion y Strategaeth.

Dyweddwyd bod Llywodraeth Cymru, yn ei hadborth, yn cefnogi gweledigaeth, trywydd a dyheadau Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i allu cyflwyno'r Strategaeth derfynol i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar 24 Mehefin (sydd bellach wedi'i ymestyn i 4 Gorffennaf).

Consensws y Cabinet oedd ei bod yn bwysig hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed i allu defnyddio'r Gymraeg mewn modd hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cynnwys y fersiwn diwygiedig o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno'r Strategaeth derfynol i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar 24 Mehefin (sydd bellach wedi'i ymestyn i 4 Gorffennaf).**



**7. CAM-DRIN DOMESTIG, POLISI TRAIS DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL**

## 8. CYNRYCHOLAETH AR GYRFF ALLANOL

[Sylwer: Ar ôl datgan buddiant yn gynharach, arhosodd y Cynghorydd A Davies yn y cyfarfod, cymerodd ran yn y drafodaeth a phleidleisiodd ar yr eitem hon.]

O ganlyniad i'r etholiadau llywodraeth leol diwethaf, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i restr o Gyrrff Allanol er mwyn penderfynu a ddylai'r Cyngor benodi /parhau i benodi ar y cyrrff hynny. Cyflawnwyd adolygiad cychwynnol o'r rhestr o gyrrff allanol i ganfod statws cyfredol y sefydliadau presennol ac roedd enwebiadau wedi'u cynnwys fel atodiad i'r adroddiad yn Atodiad A.

Fel rhan o'r dull adolygu i gynrychiolwyr adrodd yn ôl ar waith pob corff allanol, ceisiai'r adroddiad gyflwyno dull 'adrodd yn ôl' trwy gwblhau ffurflen - adroddiad blynyddol cynghorwyr ar gyrrff allanol 2022/23 fel y'i hatodwyd i'r adroddiad yn Atodiad D.

Yn ogystal â'r adroddiad, rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod Grŵp Plaid Cymru wedi enwebu'r Cynghorydd Emlyn Schiavone a bod y Grŵp Annibynnol wedi enwebu'r Cynghorydd Jane Tremlett ar gyfer Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 Penodi Aelodau i gyrrff allanol y Cabinet yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 fel y manylir arnynt yn Atodiad A a'r enwebiadau a ddarparwyd ar lafar yn y cyfarfod;**

**8.2 ei fod yn ofynnol i'r aelodau a benodir i wasanaethu ar gyrrff allanol adrodd yn ôl ar gyfarfodydd y cyrrff hynny drwy lenwi'r ffurflen sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad D.**

## 9. PANELAU YMGYNGHOROL I'R CABINET

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys manylion am y panelau ymgynghorol a sefydlwyd gan y weinyddiaeth flaenorol i adrodd ar faterion amrywiol a gwahoddwyd y Bwrdd i adolygu diben, swyddogaethau ac aelodaeth y panelau ac i benderfynu ar ba rai yr oedd am ei gadw ac unrhyw banelau newydd yr oedd yn dymuno eu sefydlu.

Nododd Aelodau'r Cabinet fod Panel Ymgynghorol y Gwasanaethau Tai, Panel Cyswllt y Compact, y Panel Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Pobl Dduon Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig a'r Panel Cludiant Ysgol, a sefydlwyd gan y Cabinet blaenorol, wedi cwblhau eu gwaith ac y byddent felly'n cael eu diddymu.

Dywedwyd er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth benodi aelodau i fod yn rhan o'r panelau ymgynghorol, y gofynnwyd am enwebiadau gan Arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a atodwyd fel Atodiad A i'r adroddiad.

Mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig gan y Cyngorydd Liam Bowen yn y Cyn-gyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022 a gyfeiriwyd at y Cabinet; "Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i hyrwyddo ei ymrwymiad trwy ddatgan argyfwng natur a sefydlu panel ymgynghorol trawsbleidiol i gefnogi dull yr awdurdod hwn o newid yn yr hinsawdd ac argyfwng natur ac ymgorffori mabwysiadu Datganiad Caeredin", gofynnwyd i'r Cabinet a yw'n dymuno cytuno i sefydlu'r panel yn ffurfiol ac os felly byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y cabinet ar y cylch cyfeirio ac aelodaeth a awgrymir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 Penodi'r Panelau Ymgynghorol i'r Cabinet fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 o'r adroddiad;**

**9.2. sefydlu Panel Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Newid yn yr Hinsawdd a bod adroddiad yn cynnwys y cylch gorchwyl a'r aelodaeth a awgrymir yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet.**

**10. PENODI I GWMNIAU SY'N EIDDO I'R CYNGOR**

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad a oedd yn cynnwys enwebiadau mewn perthynas â dau gwmni sy'n eiddo i'r Cyngor y mae'n eu gweithredu. Mae'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer y ddau Gwmni, sef CWM Environmental Ltd. a Llesiant Delta Wellbeing Ltd yn destun rôl oruchwylio gan y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gadarnhau'r penodiadau fel y nodwyd yn yr adroddiad i fod yn rhan o'r byrddau hyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**10.1 penodi'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth , Gwastraff a Seilwaith yn gynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Cyfranddalwyr CWM Environmental.**

**10.2. penodi'r Aelod Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r 3 aelod canlynol i Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta Wellbeing Ltd:-**

- Y Cyngorydd Deryk Cundy (Llafur)
- Y Cyngorydd Alex Evans (Plaid Cymru)
- Y Cyngorydd Hazel Evans (Plaid Cymru)

**11. UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

\_\_\_\_\_  
CHAIR

\_\_\_\_\_  
DATE

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## CABINET

**18 GORFFENNAF 2022**

**PRESENNOL** Councillor D. Price (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

L.D. Evans

P.M. Hughes

G.H. John

A. Lenny

E.G. Thomas

A. Vaughan Owen

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

G. Davies

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

Y Cynghorydd D.M. Cundy

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr;

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;

N. Daniel, Pennaeth Gwasanaethau TGCh a Pholisi Corfforaethol;

S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;

A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;

D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Sylwedydd];

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion].

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn rhithwir):**

J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;

S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg;

I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio;

S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd;

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:25yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies a J. Tremlett.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALWYD AR 4 GORFFENNAF 2022**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022 gan eu bod yn gywir.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. DATGANIAD GWELEDIGAETH Y CABINET 2022 - 2027**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn atodiad i Ddatganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022-2027. Wrth gyflwyno'r datganiad gweledigaeth 5 mlynedd, eglurodd yr Arweinydd, yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Mai 2022), fod y Cabinet newydd wedi ymrwymo i gyhoeddi datganiad gweledigaeth cyn y Strategaeth Gorfforaethol oedd i'w gyhoeddi yn yr Hydref.

Dywedwyd y byddai'r adroddiadau a'r argymhellion perthnasol ynghylch prosiectau a rhaglenni penodol yn yr adroddiad yn cael eu cyflwyno drwy'r broses ddemocrataidd dros y pum mlynedd nesaf.

Roedd y datganiad yn nodi'r trywydd y mae'r Cabinet hwn am ei ddilyn a chanolbwyntio arno i wneud gwahaniaeth ar draws y Sir dros y 5 mlynedd nesaf. Nodwyd y byddai'r gwaith yn cynnwys cysylltu â phartneriaid i gryfhau'r economi, cynyddu ffyniant, a buddsoddi mewn tai, addysg, diwylliant, seilwaith a'r amgylchedd.

Nodwyd y byddai canlyniadau'r Arolwg Trigolion a'r Arolwg Staff yn rhan annatod o ddatblygiad llwyfannau polisi'r Cabinet yn y dyfodol. Yn ogystal, pwysleisiwyd, er mwyn mireinio ymhellach y datganiad gweledigaeth, fod deialog trawsbleidiol gyda'r holl Aelodau yn cael ei groesawu a bod nifer o gyfarfodydd eisoes wedi'u trefnu dros yr haf.

Rhodddwyd cyfle i bob Aelod Cabinet oedd yn bresennol yn y cyfarfod gyflwyno'r weledigaeth ar gyfer eu portffolio.

Yn unol â'r Protocol, gwahoddodd yr Arweinydd y Cynghorydd Rob James i ofyn y cwestiwn yr oedd wedi'i baratoi mewn perthynas â'r eitem hon.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Rob James:**

*“Wrth ddarllen y ddogfen weledigaeth, mae'n debyg iawn i restr hir iawn o bethau i'w gwneud neu ddatganiadau cyffredinol megis; gweithio gyda chyrrff allanol a deall yr hyn y gellir ei wneud i gefnogi preswylwyr. Byddai hyd yn oed Cyngor o*

*dan arweiniad y Ceidwadwyr yn dweud hynny, mae'n brin iawn o fanylion ac mae'n debyg iawn i'r cynllun 'Symud Ymlaen, y 5 mlynedd nesaf', rwy'n credu sy'n cael ei adnabod yn y Cyngor fel y cynllun 96 pwynt. Yn wir, mae hwn yn gynllun sydd â 113 o bwyntiau, felly fy mhrif gwestiwn yw;*

*Sut rydym yn disgwyl i'r cyhoedd roi eu barn ar ddogfen sy'n brin o fanylion a nodau mesuradwy? Nid yw'n dweud pa ddyfodol yr hoffech chi ar gyfer addysg, nid yw'n dweud sut y byddech chi'n ceisio integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, nid yw'n dweud sut y byddwch chi'n ceisio adeiladu'r economi ar gyfer y dyfodol. Fel disgrifiodd y Cynghorydd Lenny, nid breuddwyd gwrach ydyw, nid yw mewn gwirionedd yn ymdrin ag unrhyw beth sy'n ymwneud â ffyniant na phwysau chwyddiant ar y gyllideb neu os byddech chi'n gallu cyflawni'r addewidion hyn mewn gwirionedd."*

### **Ymateb gan yr Arweinydd:**

"Rwy'n credu efallai bod camddealltwriaeth sylfaenol ar eich rhan o ran ble rydym arni ar hyn o bryd a pha rôl y mae'r datganiad gweledigaeth hwn yn ei chwarae o ran bwydo i'n Strategaeth Gorfforaethol. Byddwn i wedi gobeithio bod holl Aelodau'r Cyngor hwn wedi derbyn y neges yn glir, oherwydd roeddwn i wedi bod yn ei ddweud yn gyson am y 2 fis diwethaf. Mewn gwirionedd, rwy'n cofio cwrdd â chi'r tro cyntaf ar ôl yr etholiad, a phan wnaethom gwrdd â chi, y Cynghorydd Dot Jones a'r Cynghorydd Deryk Cundy, dywedais yn hollol glir mai'r uchelgais o'm safbwynt i oedd cyrraedd sefyllfa yn yr Hydref mewn perthynas â'r Strategaeth Gorfforaethol lle'r oedd yr holl safbwyntiau wedi'u hystyried. Dyma ein man cychwyn fel Cabinet, dyma'r hyn yr ydym yn rhagweld yw ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen, ond rydym yn cydnabod y gallai fod gan eraill syniadau gwahanol. Dyna pam y mae'n bwysig ein bod yn ystyried barn trigolion, drwy'r Arolwg Trigolion, y staff, drwy'r Arolwg Staff a'ch hunain fel Aelodau drwy'r cyfarfodydd sydd eisoes wedi'u trefnu neu sydd wrthi'n cael eu trefnu gydag amrywiaeth o wahanol Aelodau. Felly mae'r safbwyntiau gwahanol hynny'n cael eu bwydo mewn modd mesuradwy a systematig, fel bod yr holl safbwyntiau hynny wedi'u hystyried pan fyddwn yn ymdrin â'r Strategaeth Gorfforaethol yn yr Hydref.

Dyna'r broses sydd wedi'i nodi ac rwyf wedi bod yn glir dros y ddau fis diwethaf o ran yr hyn rwy'n ei ddisgwyl gan wahanol rolau gwahanol grwpiau. Rwy'n credu bod trafodaeth i'w chael gyda'r Grŵp Llafur a chi eich hun fel Arweinydd Llafur o ran sut rydych chi'n gweld eich hunain yn cyfrannu at y broses honno ac nid yn unig i ddechrau o ran y Strategaeth Gorfforaethol ond yn fwy hirdymor o ran datblygu polisi yn y Cyngor hwn. Rwy'n credu bod gennych gyfle gwych i gyfrannu eich syniadau a'ch awgrymiadau ar nifer o wahanol gamau, dyma'r un cyntaf.

A dweud y gwir, rwyf braidd yn siomedig ynghylch y cwestiwn rydych wedi'i gyflwyno'r bore yma. Credaf ei fod yn ddiog. Roedd gennych gyfle i gyflwyno rhywfaint o feirniadaeth adeiladol o bosib, gallech chi fod wedi dod i'r cyfarfod hwn heddiw i ofyn i mi fel Arweinydd a ydw i'n cytuno bod angen cryfhau'r hyn a'r llall, ond dewisoch chi beidio â gwneud hynny. Fe ddewisoch chi'r opsiwn diog, ac rwy'n siŵr y byddai rhai yn dadlau mai pwrpas y cwestiwn yn syml oedd bachyn ar gyfer datganiad i'r wasg Llafur i'r Evening Post, ond rwy'n gobeithio eich bod chi a'r Grŵp Llafur yn rhoi rhyw ystyriaeth ddifrifol i sut rydych chi am ryngweithio â ni fel y Weinyddiaeth. Fy nghynnig fel yr wyf wedi amlinellu eto yn y

datganiadau rhagarweiniol i'r adroddiad hwn, yw cynnig trafodaeth ac mae'r cynnig dal ar gael, a mater i eraill yw cymryd y cynnig hwnnw o ddifrif.

Rwy'n gwrthod yn llwyr yr awgrym bod diffyg gweledigaeth yn y ddogfen hon. Mae'n uchelgeisiol ac yn gyffrous ond hefyd yn gyraeddadwy fel soniodd y Cynghorydd Lenny. Rydym yn wynebu pwysau ariannol ac rydym yn gwbl ymwybodol o hynny ac rydym yn benderfynol o weithio gydag eraill i geisio goresgyn y rheini. Mae'r weledigaeth yno ac mae'n fan cychwyn ar gyfer trafodaeth. Rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r trafodaethau hynny gyda chi, gobeithio, mewn modd cadarnhaol dros y misoedd nesaf."

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad Gweledigaeth y Cabinet ar gyfer 2022-2027.**

### **7. DIWRNODAU PARCIO AM DDIM MEWN TREFI**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y goblygiadau o ran cost ac adnoddau amrywio'r trefniadau presennol ar gyfer diwrnodau parcio am ddim ynghyd â'r opsiynau sydd ar gael i barhau â'r fenter parcio am ddim.

Dywedwyd mai nod polisi parcio am ddim y Cyngor oedd cynyddu nifer yr ymwelwyr mewn trefi drwy ddarparu parcio am ddim yn ei feysydd parcio talu ac arddangos ar hyd at bum diwrnod gwahanol bob blwyddyn i gefnogi digwyddiadau neu ymgyrchoedd ym mhob tref. Ar hyn o bryd, cyflwynwyd ceisiadau am y diwrnodau parcio am ddim ar-lein ac mae'n rhaid iddynt gael cefnogaeth y Cyngor Tref a'r Grŵp Rheoli Canol Tref priodol. Yn dilyn ymgynghoriad mewnol, cafodd y ceisiadau eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet.

Nododd y Cabinet, yn seiliedig ar adroddiadau annibynnol a gomisiynwyd fel rhan o fenter Deg Tref y Cyngor, fod cynrychiolwyr trefi gwledig wedi ceisio cynyddu nifer y diwrnodau parcio am ddim y tu hwnt i'r 5 diwrnod parcio am ddim y flwyddyn sydd gan y Cyngor ar waith ar hyn o bryd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl opsiynau oedd ar gael, cynigiwyd cymeradwyo opsiynau 5 a 6 yr adroddiad, ac eiliwyd y cynnig hwn.

Yn unol â'r Protocol, gwahoddodd yr Arweinydd y Cynghorydd Rob James i ofyn y cwestiwn yr oedd wedi'i baratoi mewn perthynas â'r eitem hon.



## Cwestiwn gan y Cyngorydd Rob James:

*"Rwy'n siŵr y byddai'r Cabinet yn cytuno â mi ei fod wedi bod yn gyfnod anodd i fusnesau lleol, a chredaf y bu dadlau ers amser maith bod parcio am ddim yn fectanwaith posibl ar gyfer hybu busnesau lleol fel cymorth. Fel y gwelwch yn yr adroddiad, mae amrywiad mawr hefyd lle cynhyrchodd Tref Caerfyrddin yn benodol 70% o'r holl daliadau parcio ar gyfer y Sir gyfan. A fyddai'r Cabinet yn fodlon gweithio gyda ni i weld a allwn ni ddatblygu cynnig am barcio am ddim am 1 awr mewn meysydd parcio penodol ar draws y Sir i sicrhau y gallwn gefnogi'r busnesau lleol wrth i chi gyflwyno'r cynllun peilot hwn. Rwy'n credu y byddai parcio am ddim am 1 awr yn bolisi syml iawn a byddai'r cyhoedd yn ei ddeall yn iawn, ni fyddai anghysondeb o ran gwahanol ddyddiau ac amseroedd gwahanol, ac rwy'n credu y byddai'n cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r trefi mewn gwirionedd."*

Er ei fod yn derbyn y cwestiwn y tro hwn, gofynnodd yr Arweinydd i gwestiynau gael eu cyflwyno yn y dyfodol yn unol â gofynion y Protocol ynghylch Presenoldeb Aelodau Anweithredol mewn Cyfarfodydd Ffurfiol y Cabinet.

## Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:

"Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi busnesau lleol a chanol trefi dros sawl blwyddyn, cyn, yn ystod a thu hwnt i'r pandemig. Wrth ymgynghori â phob canol tref, mae'r Cyngor wedi darparu pum diwrnod parcio am ddim i gefnogi digwyddiadau, ac mae'r Cyngor wedi darparu cymorth pellach gyda chyfnodau parcio am ddim estynedig yn ystod yr wythnos ym mhob tref. Darperir parcio am ddim yn:

- Rhydaman – Dydd Llun, Dydd Mawrth a Dydd Mercher, 10:00am tan 2:00pm
- Caerfyrddin – Dydd Mawrth a Dydd Iau, 3:30pm tan 6:00pm
- Llanelli – Dydd Llun a Dydd Mawrth, 10:00am tan 4:00pm
- Llandeilo, Llanymddyfri, Castellnewydd Emlyn a Sanclêr - Dydd Llun i Dydd Mercher, 10:00am tan 2:00pm

O ran taliadau parcio yn fwy cyffredinol, mae taliadau parcio'r Cyngor hwn yn cymharu'n ffafriol â thaliadau parcio mewn Cyngorau cyfagos:

- Mae Sir Gâr yn codi tâl o rhwng £2.40 a £3.60 am hyd at 4 awr.
- Mae Abertawe er enghraifft yn codi tâl o £4.50 am 4 awr, os ydych chi'n parcio mewn maes parcio trefol ond £7 am NCP.
- Mae Castell-nedd Port Talbot yn codi £3.30 am 3-4 awr gan gynyddu i £3.80 wedi hynny
- Mae Ceredigion yn codi £3 am 3 awr, gan gynyddu i £3.80

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen parhau i adolygu ein taliadau parcio a'n polisi parcio.

Cafodd Strategaeth Parcio'r Cyngor ei hadolygu a'i chymeradwyo ddiwethaf yn 2018, cafodd y strategaeth flaenorol ei diweddarau fel un o ganlyniadau gwaith Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu yn 2016.

Gallaf eich sicrhau ein bod ni fel Cabinet yn awyddus i weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws y sir, gan gynnwys gweithio gyda busnesau Ardal Gwella Busnes Canol Trefi, Cynghorwyr Sir, Cynghorau Tref a Chymuned ac eraill er mwyn sicrhau bod ein strategaeth barcio yn gyfredol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posibl i drefi gan gyfrannu hefyd at amcanion ehangach y Cyngor o ran helpu i leihau problemau traffig, tagfeydd ac ansawdd aer a buddsoddi yn ein system trafndiaeth gyhoeddus.

Rydym yn gwybod bod y galw am barcio yn cael ei ddylanwadu gan y math a swyddogaeth defnydd tir ac ansawdd system drafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen i ni felly gadw mewn cof ac adolygu argaeledd trafndiaeth gyhoeddus yn lle ceir, yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru o ran lleihau teithiau mewn car ledled Cymru.

Mae dyletswydd arnom felly, i sicrhau bod ein Strategaeth Barcio yn gyson â Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, ac rwy'n awyddus i sicrhau bod unrhyw ymyriadau a gyflwynir yn gymesur a sicrhau ein bod yn cael cydbwysedd rhwng cefnogi canol trefi a busnesau a chefnogi amcanion datgarboneiddio mwy cynaliadwy.

Unwaith eto, rwy'n hapus i weithio gyda'r grŵp Llafur ar yr agenda hon a byddwn yn hapus i gwrdd â chi i drafod eich syniadau gyda'r posibilrwydd o'u cynnwys yn y Strategaeth Gorfforaethol yn y dyfodol fel y trafodwyd yn gynharach."

Eglurwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd mewn ymateb i gais i'r Cabinet yn enwedig yn achos Llanymddyfri a bod nifer o opsiynau wedi'u datblygu fel rhan o'r fenter Deg Tref. Yn ogystal, cydnabuwyd y gallai twf economaidd tref Llanymddyfri elwa o'r fenter parcio am ddim ac felly byddai opsiwn 5 a gynigir yn argymhellion yr adroddiad i gynnal cynllun peilot am 12 mis yn casglu gwybodaeth berthnasol bwysig ac yn asesu effaith darpariaeth estynedig o 12 diwrnod yn Llanymddyfri.

Yn ogystal, o ran parcio am ddim, fe wnaeth y Cabinet gydnabod bod anghysondeb ar draws y Sir. Felly, eglurwyd mai opsiwn 6 a gynigir yn argymhellion yr adroddiad, fyddai adolygu'r strategaeth barcio am ddim bresennol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL;**

- 7.1 cynnal cynllun peilot am 12 mis i asesu effaith darpariaeth estynedig o 12 diwrnod yn Llanymddyfri.**
- 7.2. cynnal adolygiad o'r strategaeth parcio am ddim bresennol ar draws y Sir, sy'n gysylltiedig â'r strategaeth parcio cyffredinol a gymeradwywyd yn 2018, a bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad yn y dyfodol i gadarnhau Cylch Gwaith yr adolygiad.**

## **8. POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO EIDDO**

Mewn ymateb i'r rhybudd o gynnig a phenderfyniad dilynol y Cyngor ar 13 Hydref 2021 [gweler cofnod rhif 9.1], rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad a oedd

yn amlinellu gwybodaeth am y Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo Drafft a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Roedd y polisi yn darparu fframwaith er mwyn i Gyngor Sir Caerfyrddin weithredu'r swyddogaeth Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo yn effeithiol ac yn effeithlon er budd trigolion Sir Gaerfyrddin, y gwasanaethau brys, busnesau ac ymwelwyr â'r sir. Yn ogystal, roedd y polisi yn sicrhau bod y Cyngor yn adlewyrchu'r pwerau a'r dyletswyddau deddfwriaethol perthnasol hynny, gan gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac Adrannau 17 i 19 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (1925).

Nodwyd mai nod y Polisi oedd darparu cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a pherchnogion eiddo presennol wrth ystyried datblygiadau newydd, newydd, addasu eiddo neu leiniau mewnlenni unigol, yn ogystal â newid enw eiddo presennol. Roedd hefyd yn ganllaw i Gyngorau Tref a Chymuned ynglŷn â'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu'r Swyddogaeth Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo a'r protocolau ar gyfer pennu'r enwau swyddogol ar strydoedd a rhifau eiddo.

Roedd Aelodau'r Cabinet yn falch o gael nodi fod y polisi yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg, ac mewn perthynas ag enwau strydoedd ac eiddo, byddai'n hyrwyddo a mabwysiadu enw Cymraeg a oedd yn gyson â threftadaeth a hanes yr ardal.

Yn ogystal, nododd y Cabinet y byddai ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cael ei gynnal ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Cyngor, ac y byddai unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor eu hystyried cyn i'r polisi gael ei fabwysiadu.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

- 8.1 bod y Polisi Enwi Strydoedd a Rhifo Eiddo Drafft yn cael ei gymeradwyo am gyfnod o 28 diwrnod o ymgynghori cyhoeddus;**
- 8.2 bod unrhyw sylwadau a dderbynnir i'r ymgynghoriad, ynghyd ag argymhellion swyddogion, yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor i'w trafod.**

#### **9. CYMUNEDAU CYNALIADWY SIR GAERFYRDDIN AR GYFER DYSGU (CCSGD) (Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG YN FLAENOROL) ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sir Gaerfyrddin (y Rhaglen Moderneiddio Addysg gynt) - Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar adliniad i'r Rhaglen Gyfalaf i hwyluso gwaith brys i gynyddu nifer y lleoedd arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol / Anhwylder sbectrum awtistig.

Nodwyd bod mater brys mewn perthynas â darpariaeth Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig wedi codi oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cabinet wneud addasiad (trosglwyddiad) i'r rhaglen gyfalaf er mwyn mynd i'r afael â'r angen brys hwn.

Nododd y Cabinet nad oedd dim darpariaeth ar hyn o bryd yn y dyraniad cyfalaf yn benodol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) ym Mand A neu B o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Sir Gaerfyrddin (Rhoglen Moderneiddio Addysg gynt). Cyfanswm cost y gyllideb i wneud y gwaith brys ar gyfer Medi 2022 fel yr amlinellir yn yr adroddiad oedd £1.76 miliwn ac o ystyried bod costau'r gyllideb yn sylweddol, roedd angen cymeradwyo'r trosglwyddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo trosglwyddiad yn y rhaglen gyfalaf i ganiatáu i'r gwaith brys hwn gael ei wneud ar frys**

#### **10. UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

#### **11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

#### **12. LLYWODRAETH Y DU: Y GRONFA FFYNIANT BRO, CYNNIG LLANELLI**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth hon o bosibl yn niweidio buddiannau busnesau sy'n meddiannu'r safle dan sylw ar hyn o bryd ac yn tanseilio sefyllfa'r Cyngor wrth geisio caffael tir ar gyfer y prosiect.**

<TRAILER\_SECTION>

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad oedd yn cynnwys gwybodaeth am Etholaeth Llanelli a cheisiadau am gyllid ar gyfer Trafnidiaeth a oedd wedi'u paratoi i'w cyflwyno i gylch 2 Rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y ceisiadau i'w cyflwyno o ran Etholaeth Llanelli a cheisiadau am gyllid ar gyfer Trafnidiaeth , fel y manylir**

**yn yr adroddiad, ar gyfer cylch 2 Rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn cael eu cymeradwyo.**

<TRAILER\_SECTION>

Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i adroddiad oedd yn cynnwys gwybodaeth am Etholaeth Llanelli a cheisiadau am gyllid ar gyfer Trafnidiaeth a oedd wedi'u paratoi i'w cyflwyno i gylich 2 Rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y ceisiadau i'w cyflwyno o ran Etholaeth Llanelli a cheisiadau am gyllid ar gyfer Trafnidiaeth , fel y manylir yn yr adroddiad, ar gyfer cylch 2 Rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn cael eu cymeradwyo.**

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## DYDD LLUN, 25 GORFFENNAF 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd L.D. Evans (Yr Is-gadeirydd yn cadeirio'r cyfarfod)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

C.A. Davies	G. Davies	P.M. Hughes	G.H. John
A. Lenny	E.G. Thomas	A. Vaughan Owen	

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol (yn rhithwir):**

Y Cyngorydd D. Cundy

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (yn y Siambr):**

W. Walters, Prif Weithredwr  
 C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant  
 D. Hockenfull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata  
 A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff  
 H. Morgan, Rhelwr Datblygu Economaidd  
 C. S. Higginson, Media Manager  
 S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd  
 J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion]

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (yn rhithwir):**

J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel  
 I. Jones, Pennaeth Hamdden  
 M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
 J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.52 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd D. Price.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.****Enw****Eitem ar yr Agenda****Datgan Buddiant**

W. Walters, Prif  
Weithredwr

12 - Prosiect Cyfalaf  
Oriol Myrddin

Mae ei gŵr yn gweithio i  
un o'r contractwyr ar y  
fframwaith.

### **3. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN YR AELODAU**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

### **4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

### **5. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar lefel y cyllid i'w ddarparu i Awdurdodau Lleol ar draws rhanbarth De-Orllewin Cymru yn ystod y 3 blynedd nesaf yn unol â meysydd blaenoriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol De-Orllewin Cymru a gyflwynwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, a oedd wedi'i gydlyn gan Gyngor Abertawe fel yr Awdurdod arweiniol ar ran rhanbarth y De-orllewin, i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a rhoi'r Gronfa ar waith ar ôl hynny.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 5.1 Cymeradwyo'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i alluogi'r Sir i elwa o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU;
- 5.2 Cymeradwyo'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru sy'n nodi sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei defnyddio yn y rhanbarth rhwng 2022/23 a 2024/25, cyn cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth y DU.

### **6. EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'w chynnal yn Sir Gaerfyrddin yn 2023. Nodwyd bod y digwyddiad wedi ei ohirio yn 2021 o ganlyniad i bandemig coronafeirws.

Cydnabu'r Cabinet y buddion a fyddai'n deillio o'r Eisteddfod o ran llesiant economaidd Sir Gaerfyrddin, a'r cyfraniad at ddatblygiad y Gymraeg yn y sir a oedd yn adlewyrchu'r ymrwymiad i gefnogi'r dyhead o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn hyn o beth, cyfeiriwyd at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod a gymeradwywyd yn y ddiweddar gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a oedd yn nodi sut y byddai'r Cyngor yn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ei ysgolion yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Nododd y Cabinet y cais a wnaed gan yr Urdd am gymorth ychwanegol posibl i sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei reoli'n llwyddiannus yn sgil y newidiadau a wnaed yn dilyn pandemig coronafeirws. Yn hyn o beth, cafodd goblygiadau staffio'r Awdurdod eu hystyried gan y Cabinet. Cyfeiriwyd at Gytundeb Lefel Gwasanaeth a fyddai'n cael ei lunio rhwng yr Awdurdod a'r Urdd i sicrhau bod y profiad gorau posibl yn cael ei roi i'r plant, y bobl ifanc, a thrigolion y sir yn ystod y cyfnod paratoi 12 mis ac yn ystod wythnos y digwyddiad.



## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 6.1** Bod cymorth ariannol yn cael ei roi i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr 2023, gan roi cyfraniad ariannol o £80,000 i Eisteddfod yr Urdd;
- 6.2.** Rhoi cymorth i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn unol â'r gwasanaethau a nodir yn yr adroddiad;
- 6.3** Penodi'r Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau i arwain y prosiect, gan gyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Cabinet.

## **7. PANEL YMGYNGHOROL TRAWSBLEIDIOL YNGHYLCH NEWID YN YR HINSAWDD**

Gan gyfeirio at gofnod 9.2 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad ar gylch gwaith ac aelodaeth arfaethedig y Panel Ymgynghorol Trawsbleidiol ar Newid yn yr Hinsawdd, a oedd yn cael ei sefydlu i gefnogi dull yr Awdurdod o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo aelodaeth a chylch gwaith y Panel Ymgynghorol trawsbleidiol ar Newid yn yr Hinsawdd fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

## **8. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2021-2022**

Fel rhan o ofynion Côt Ymarfer diwygiedig CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2021-22.

Mabwysiadodd y Cyngor Bolisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd ar gyfer 2021-22 ar 3 Mawrth 2021. Rhestrododd yr adroddiad blynyddol y gweithgareddau a gynhaliwyd yn 2021-22.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR ei fod yn mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth 2021-22.**

## **9. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Cabinet yn ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw'r Cyngor a oedd yn rhoi sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn i aelodau mewn perthynas â 2021/22.

Roedd y ffigurau alldro terfynol yn dangos tanwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £5,345k (ac yn cynnwys effaith y dyfarniad cyflog ar gyfer Ebrill 2021 y dyrannwyd mwy yn y gyllideb ar ei gyfer na'r hyn oedd ei angen). Ar ôl ystyried y taliadau cyfalaf a'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a

chronfeydd wrth gefn adrannol, roedd y sefyllfa net ar gyfer yr Awdurdod yn golygu tanwariant o £1,433k.

Nododd y Cabinet fod y tanwariant, yn bennaf, i'w briodoli i ffactorau a oedd yn ymwneud â phandemig coronafeirws. Yn hyn o beth, dywedwyd bod cyllid grant ychwanegol sylweddol wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn, a bod costau pellach yn gysylltiedig â'r coronafeirws wedi cael eu hadalu i raddau helaeth o dan gynllun caledi Llywodraeth Cymru. Eglurwyd hefyd bod rhywfaint o gyllido cyfalaf o dan wariant wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â phwysau sylweddol ar gyllidebau prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Ar ben hynny, cydnabuwyd bod rhai gwasanaethau wedi cael eu hoedi neu eu lleihau oherwydd cyfyngiadau coronafeirws yn ogystal â swyddi gwag yn ystod y cyfnod adrodd a gyfrannodd at y tanwariant.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Cyfrif Refeniw Tai a atodwyd wrth yr adroddiad yn Atodiad B a oedd yn nodi tanwariant o £8,907k ar gyfer 2021/22. Rhodddwyd crynodeb o'r prif amrywiannau i'r Cabinet mewn perthynas ag atgyweiriadau a chynnal a chadw, goruchwyllo, rheoli a chymorth, darpariaeth ar gyfer drwgddyled, taliadau cyllido cyfalaf, cyllid grant ac incwm.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer Diwedd y Flwyddyn 2021-22.**

**10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYN YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau brys wedi dod i law.

**11. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoeddadael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**12. PROSIECT CYFALAF ORIEL MYRDDIN**

Gadawodd y Prif Weithredwr, W. Walters, y cyfarfod yn dilyn datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn tanseilio sefyllfa'r Cyngor yn y**

**broses gaffael a bod yn niweidiol mewn modd annheg i'r contractwr a ffeirir yn y farchnad ehangach.**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygu Oriel Myrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion fel y nodir yn yr adroddiad er mwyn cefnogi datblygu Oriel Myrddin.**

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol